**HYSBYSIAD STATUDOL**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Adeilad Bwrdeisiol, Canolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB**

Rhoddir hysbysiad yn unol ag adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2021 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ar ôl ymgynghori â'r personau hynny fel sydd angen, yn cynnig sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle gyda darpariaeth gofal plant yn yr un lleoliad ar y safle arfaethedig sef Chartist Way, Tredegar, NP22 4PR ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Caiff hyn ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Ni fydd gan yr ysgol newydd unrhyw gymeriad crefyddol enwadol

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yn:-

CBS Blaenau Gwent: Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg Newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi drwy Fodel Egin/Twf (blaenau-gwent.gov.uk)

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023 yn defnyddio model twf egin, lle mae'r ysgol yn agor i ddechrau ar gyfer gofal plant, grwpiau blwyddyn Meithrin a Dosbarth Derbyn, gan ychwanegu grŵp blwyddyn wedyn bob blwyddyn academaidd gyda'r ysgol yn cyrraedd ei chapasiti pan fydd cohort y dosbarth derbyn cyntaf yn cyrraedd Blwyddyn 6.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol a gynhelir cyfrwng Cymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fydd yr awdurdod derbyn. Capasiti disgyblion yr ysgol newydd fydd 210 disgybl oedran ysgol statudol (4-11). Bydd hefyd 24 o leoedd meithrin llawn-amser.

Y nifer derbyn ar gyfer y grŵp dosbarth derbyn yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y gweithredir y cynigion yw 24 a bydd y nifer derbyn ar gyfer lleoedd meithrin llawn-amser hefyd yn 24.

Ym mhob blwyddyn ysgol ddilynol, bydd disgyblion yn symud ymlaen i'r grŵp blwyddyn nesaf; bydd gan bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol yn cynnwys pob grŵp dosbarth Derbyn newydd nifer derbyn o 24, gyda'r ysgol newydd yn cyrraedd capasiti o 210 disgybl o oedran ysgol statudol (4-11) a 28 o leoedd meithrin llawn-amser yn y flwyddyn ysgol yn cychwyn mis Medi 2023, fel y dangosir yn y tabl islaw.

| | M | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24** | 24 | 24 | | | | | | |
| **2024/25** | 24 | 24 | 24 | | | | | |
| **2025/26** | 24 | 24 | 24 | 24 | | | | |
| **2026/27** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | | | |
| **2027/28** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | | |
| **2028/29** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | |
| **2029/30** | 30 | 30 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |
| **2030/31** | 30 | 30 | 30 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |

Darperir cludiant  i ddisgyblion yn unol â pholisi'r Cyngor ar gludiant Rhwng yr Ysgol a'r Cartref. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n mynychu eu hysgol berthnasol os ydynt yn byw fwy na 1.5 milltir o bellter cerdded i'r ysgol honno.

Gall unrhyw berson wrthwynebu+'r cynigion o fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn 29 Mawrth 2021.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i  [21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk.](mailto:21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk)

Dylid anfon gwrthwynebiadau mewn ysgrifen at Lynn Phillips, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, Blaenau Gwent, NP13 1DB.

Llofnod

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.**

**1 Mawrth 2021**

**NODYN ESBONIADOL**

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid ar 17 Ionawr 2018 y dyrennid £30 miliwn (cyllid 100%, heb unrhyw ofyniad arian cyfatebol gan Gynghorau) i gefnogi prosiectau cyfalaf yn neilltuol i greu darpariaeth addysg Gymraeg ychwanegol.

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn llwyddiannus yn ei gais am £6M i gyflenwi darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r hysbysiad statudol hwn yn ganlyniad ymgynghoriad statudol ar sefydlu'r ysgol newydd a gynhaliwyd gan gydymffurfio gyda'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig **ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020** a daeth i ben **ddydd Gwener 29 Ionawr 2021.** Roedd 4 elfen greiddiol allweddol yn y cynnig fel sy'n dilyn:

I. Creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.
II. Datblygu'r Ysgol Gynradd Gymraeg newydd fel model egin/twf lle daw'r cyfleusterau gofal plant a'r grwpiau meithrin a dosbarth derbyn i rym ym mis Medi 2023, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgyblion bob blwyddyn ar ôl hynny. Byddai'r ysgol yn gweithredu'n llawn gyda phob grŵp blwyddyn erbyn mis Medi 2029.
III. I sicrhau lleoliad addas. Yn seiliedig ar adolygiad ac ymchwiliad dechreuol o'r safle, yr opsiwn a ffafrir yw Chartist Way yn ardal Sirhywi.
IV. Datblygu strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'i alinio gydag ysgol gynradd Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Mae adroddiad yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r Cyngor wedi ffafrio model ysgol egin wrth sefydlu'r cynnig hwn, er mwyn galluogi defnyddio cyfleusterau a staff yn effeithiol tra bydd yr ysgol yn tyfu i'w photensial llawn.

Caiff yr ysgol newydd ei lleoli yn ardal Tredegar/Sirhywi ym Mlaenau Gwent a bydd yn darparu Ysgol Gynradd Gymraeg ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol, sydd â dim ond un Ysgol Gynradd Gymraeg ar hyn o bryd, sef ysgol gynradd Ysgol Gymraeg Bro Helyg sydd yn ardal Blaenau yng nghwm Ebwy Fach. Dalgylch yr ysgol newydd fydd Tredegar/Sirhywi a Gogledd Ebwy Fawr.

Mae mwy o wybodaeth ar y cynnig ar gael yma:
CBS Blaenau Gwent: Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg Newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi drwy Fodel Egin/Twf (blaenau-gwent.gov.uk)

**DIWEDD YR HYSBYSIAD**